Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**11 Tachwedd 2024**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adroddiad Trosolwg: Archwiliad ar y Cyd o Drefniadau Diogelu Plant**

Rwy'n croesawu ac yn cydnabod canfyddiadau'r Adroddiad Trosolwg ac Adroddiad 2023 yr Archwiliad ar y Cyd o Drefniadau Diogelu Plant ym Mhowys: un o'r pedair sir sy'n llunio ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Cyflwynwyd ymateb HDP i'r Adroddiad Trosolwg yng nghyfarfod Bwrdd Plismona 22 Hydref 2024, lle rwy'n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona. Adroddodd y Prif Gwnstabl ar gynlluniau'r Heddlu a phartneriaid, a'r camau maen nhw eisoes wedi cymryd tuag at wella, mewn perthynas â'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ddau adroddiad.

Mae gwaith partneriaeth yn allweddol, ac yn wir, dywed yr Adroddiad Trosolwg: "*Disgwyliwn i fyrddau diogelu rhanbarthol ddysgu'r gwersi pwysig o'r adroddiad hwn ac arwain ar rannu dysgu ledled Cymru.*" Un cysur imi yw fy mod i wedi fy nghynghori bod y ddau adroddiad wedi'u trafod ym Mwrdd Diogelu Rhanbarthol Hydref 2024.

Mae HDP yn derbyn dysgu/argymhellion y ddau adroddiad, a byddant yn parhau i'w defnyddio i lunio gwelliannau gweithredol a strategol o dan y themâu allweddol canlynol.

**1. Rhannu gwybodaeth a chynlluniau gofal a diogelwch a rennir**

- Mae HDP yn cydnabod heriau rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ond yn cynghori bod partneriaid strategol wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf ar bontio'r bylchau drwy ddatblygu meddalwedd, gan alluogi system tynnu sylw ar gyfer plant ar y Gofrestr Diogelu Plant.
- Drwy'r system hon, byddai asiantaethau'n cael eu hysbysu'n awtomatig am gyswllt gyda gwasanaethau, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar farn ddynol i dynnu sylw at fynediad newydd i wasanaethau cymorth.
- Yn dilyn cynnig ar y cyd gan bartneriaid, gan gynnwys HDP, rhoddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (ClLC) £100,000 yn ddiweddar i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i barhau â'r gwaith hwn.
- Mae datblygiad y system hon yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd partneriaeth wythnosol, gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin fel yr asiantaeth arweiniol.

**2. Integreiddio a chyd-leoli**

- Gall HDP arddangos integreiddio cryf gyda phartneriaid ledled yr ardal Heddlu, er enghraifft, yn y Ganolfan Fregusrwydd ym Mhencadlys yr Heddlu.

- Mae'r Ganolfan Fregusrwydd wedi dod â'r timoedd diogelu canolog at ei gilydd, gan arwain at brosesu rhannu gwybodaeth amser real a datrys problemau yn well. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a wneir o fewn y Ganolfan mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol eraill sydd â chyfrifoldebau diogelu. Mae'n ganolfan gydlynu ar gyfer asiantaethau, ac mae defnyddio technoleg fideo'n caniatáu i waith y Ganolfan gyrraedd pob rhan o'r ardal Heddlu, sy'n bennaf wledig.
- Yn y tymor hirach, bydd HDP yn sicrhau bod integreiddio a phrosesau amlasiantaeth a rennir yn hollbwysig i'w ymagwedd.

**3. Arfer adlewyrchol a datblygiad proffesiynol parhaus**

- Er mwyn helpu i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus, dysgu, ac arfer adlewyrchol effeithiol, mae HDP wedi buddsoddi mewn Hyfforddwr Bregusrwydd penodol.
- Mae'r Hyfforddwr Bregusrwydd yn cydlynu dysgu a rennir ar gyfer yr heddlu a phartneriaid, yn ogystal â sicrhau cyflenwi holl fewnbynnau hyfforddi newydd y Coleg Plismona.
- Mae HDP hefyd yn cynnwys rhaglenni ymgyfarwyddo a mewnbynnau wedi'u teilwra yn ei amserlen hyfforddi, er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn y maes hwn. Un enghraifft o'r ymagwedd hon yw cydlynu staff lifrog yn cysgodi'r timoedd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

**Llais y Plentyn**

Er nad yw'r Prif Gwnstabl yn cyfeirio at hyn o fewn ei ymateb i'r Adroddiad, hoffwn gymryd y cyfle hwn i dynnu sylw at bwysigrwydd llais y plentyn mewn ymchwiliadau.

Dywed yr Adroddiad Trosolwg y dylid "*blaenoriaethu llais plant a theuluoedd, ond yn aml, nid ydynt yn cael eu cynrychioli'n dda*". Roedd yr adroddiad Archwiliad ar y Cyd o Drefniadau Diogelu Plant Powys yn cydnabod dealltwriaeth arweinwyr heddlu o bwysigrwydd eu personél yn siarad gyda phlant a chofnodi eu lleisiau, ond canfu hefyd bod angen gwelliannau o ran deall llais y plentyn ac anghenion profiadau byw plant ar draws y sefydliad. Canfu'r ddau adroddiad anghysondeb yn y ffordd mae personél yn cofnodi llais y plentyn.

Rwy'n ymwybodol bod HDP wrthi'n cynnal adolygiad mewnol mewn perthynas ag ymateb yr heddlu i droseddau sy'n cynnwys plant. Mae'r Heddlu'n deall bod sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei ystyried ym mhob cam allweddol o ymchwiliad yn hollbwysig er mwyn sicrhau ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mae aelodau o’m tîm Sicrhau Ansawdd wedi gweithio gyda HDP i ddatblygu proses graffu i asesu llais y plentyn mewn ymchwiliadau troseddol. Ar 20 Tachwedd 2024, bydd fy Mhanel Sicrhau Ansawdd yn adolygu troseddau a gofnodwyd yn annibynnol, gan asesu, ymysg pethau eraill, pa un ai a yw llais y plentyn wedi’i ystyried yn ystod ymateb yr heddlu, a pha un ai a oes cofnod o ddymuniadau’r plentyn yng nghofnodion yr heddlu. Ceir manylion pellach am waith fy Mhanel Sicrhau Ansawdd ar fy ngwefan.

Fel y nodwyd yn fy ymateb i Archwiliad ar y Cyd o Drefniadau Diogelu Plant Powys ym mis Chwefror eleni, mae’n galondid imi fod gwaith yn amlwg yn mynd rhagddo i wella trefniadau diogelu plant ledled yr ardal Heddlu. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd HDP yn erbyn yr argymhellion o fewn yr adroddiad hwn.